



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Adroddiad ar Arolygiad Gwasanaethau Plant a Theuluoedd – Cyngor Dinas Casnewydd

Chwefror 2013

ISBN digidol 978 0 7504 9423 6
© Hawlfraint y Goron 2013
WG18535

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Adroddiad ar Arolygiad Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Cyngor Dinas Casnewydd

Chwefror 2013

Pwrpas a chefnidir yr arolygiad:

Nododd Cyngor Dinas Casnewydd ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) nifer o feysydd i'w harolygu ar sail Adroddiad Blyneddol y Cyfarwyddwr, yr adolygiad thematig Plant mewn Angen diweddar a thrafodaethau a gynhaliwyd rhwng y ddwy asiantaeth. Nodwyd tri maes ar gyfer eu harolygu:

Effeithiolrwydd gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar

Gwneud penderfyniadau

Materion gweithlu a gallu

Y dull a'r wybodaeth a ystyriwyd

Gwasanaethau rheng flaen a'r canlyniadau i blant oedd canolbwynt yr arolygiad hwn. Edrychai ar ymarfer yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd drwy ddarllen ffeiliau achos, gwybodaeth gan y Cyngor a chanfyddiadau adolygiad diweddar gan AGGCC o wasanaethau Plant mewn Angen yng Nghyngor Dinas Casnewydd. Roedd a wnelo'r ffeiliau achos i gyd ag ailgyfeiriadau ac ailgofrestru plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod cyfnodau amser penodol yn hydref 2012. Cynhaliwyd cyfweiliadau ag unigolion a grwpiau o staff a chafwyd cyflwyniadau, gyda'r pwyslais ar gyfarfod staff rheng flaen a rheolwyr timau. Cyfwelwyd dau Reolwr Gwasanaeth hefyd a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Cafodd yr arolygwyr eu calonogi gan onestrwydd ac ymrwymiad y staff a'r rheolwyr, a gyfarfuwyd yn ystod yr arolygiad, ac roeddent yn gwerthfawrogi eu gwaith yn cwblhau eu cyflwyniadau.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau:

Mae cychwyn y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD [*IFST*]) yn 2010, ynghyd â'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICD [*IFSS*]) yn ddiweddarach, yn dangos tystiolaeth fod canlyniadau gwell yn cael eu sicrhau i rai plant a theuluoedd agored i niwed. Mae'n rhy gynnar i wasanaethau o'r fath fod wedi cael effaith ganfyddadwy o ran lleihau nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant na nifer y plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor.

Yn ystod y deunaw mis hyd at fis Tachwedd 2012, cyfrannodd newidiadau yn y ffordd y darperid gwasanaethau a phwysau o ran y gweithlu at drosiant o hyd at 33% ymhlith staff gwasanaethau rheng flaen. Golygai hyn fod swyddi gweithwyr cymdeithasol, uwch ymarferwyr a rheolwyr timau yn wag gyda'r canlyniad bod beichiau achosion yn rhy uchel i'w cynnal, bod anghysondeb o

ran ymarfer a hefyd o ran goruchwyliaeth a phenderfyniadau gan reolwyr, ynghyd ag ysbryd isel ymysg y staff.

Ar ddiwedd mis Tachwedd 2012 cymerodd y Cyngor gamau i recriwtio a chadw staff rheng flaen drwy godiadau cyflog. Cafodd hyn effaith eisoes ar recriwtio diweddar, ac mae sefydlogrwydd y staff yn dechrau gwella. Mae'r newidiadau diweddar yn y gwasanaethau wedi dechrau setlo yn eu lle ac mae ysbryd y staff wedi gwella'n amlwg dros y tri mis diwethaf.

Cafodd cynllun gweithredu Archwiliad Trothwyon y Cyngor ei adolygu a'i ddiweddarau'n ddiweddar ac roedd gwaith wrthi'n cael ei wneud i wella'r broses o wneud penderfyniadau yn y Timau Dyletswydd ac Asesu er mwyn sicrhau cysondeb mewn ymarfer.

Roedd y gyfran o staff oedd newydd ymgymhwyso a staff yn eu hail flwyddyn yn y timau rheng flaen yn uchel iawn, gyda'r profiad wedi ei grynhoi yn bennaf yn swyddi'r uwch ymarferwyr a swyddi cyffelyb.

Roedd goruchwyliaeth wedi gwella'n amlwg er bod angen talu sylw o hyd i ansawdd a chysondeb goruchwyliaeth. Siaradai'r staff yn uchel am y cymorth a'r mentora a roddid i staff oedd newydd ymgymhwyso.

Ceid arweinyddiaeth dda a diwylliant rheoli cadarn ar amrywiol lefelau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, gyda chefnogaeth Gorfforaethol a chefnogaeth gan Aelodau Etholedig i Wasanaethau Plant a Theuluoedd i gyflawni holl agenda diogelu'r Cyngor.

Yn gyffredinol, er bod yna dystiolaeth i beth ymarfer a phenderfyniadau effeithiol mewn gwaith achos, roedd yna hefyd achosion oedd yn peri cryn bryder i'r arolygwyr. Mae angen gwelliant pellach os yw ymarfer diogel i gael ei gyflawni'n gyson ynghyd â gwell canlyniadau a goruchwyliaeth gan reolwyr ar gyfer plant agored i niwed a'r rheiny sydd mewn perygl.

Argymhellion:

Sicrhau mwy o gysondeb wrth gymhwyso meini prawf trothwy a chymhwystra, a gyflawnir yn rhannol drwy weithredu argymhellion cynllun gweithredu Adolygiad Trothwyon y Cyngor ei hun o 2011 a mis Ionawr 2013. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r gorau i'r arferiad o anfon llythyrau "Dim Camau Pellach" at ddefnyddwyr gwasanaeth agored i niwed, a chynnal amrywiol wiriadau gydag asiantaethau eraill.

Parhau i gynnal a gwella'r gwaith o recriwtio a chadw staff gyda golwg ar adeiladu gweithlu mwy medrus a phrofiadol. Mae hyn yn hanfodol i leihau niferoedd llwythi achosion a gwneud y defnydd gorau o sgiliau ac ymrwymiad y staff i reoli achosion yn effeithiol ac mewn dull integredig.

Fel rhan o'r mesurau i gadw staff, mae angen gwell hyfforddiant a datblygiad i'r staff mwy profiadol gan gynnwys uwch ymarferwyr, ynghyd â chyfleoedd datblygiad i staff ar draws Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a gydag asiantaethau sy'n bartneriaid.

Gwella cysondeb ym mhenderfyniadau a goruchwyliaeth y rheolwyr, a pharhau i wella a chynnal ansawdd goruchwyliaeth, mentora a chefnogaeth. Dylai rheolwyr ystyried coladu ac adolygu cyflwyniadau'r grwpiau staff, a roddwyd i arolygwyr AGGCC, er mwyn bod o gymorth gydag ymarfer, cyflwyno mentrau newydd a datblygiad mewn gwasanaethau.

Y peryglon a ganfuwyd:

Mae anghysondeb mewn trothwyon a phenderfyniadau, ynghyd â swm mawr o gysylltiadau ac atgyfeiriadau, wedi gadael rhai plant mewn sefyllfaoedd o niwed a pherygl posibl. Efallai bod hyn wedi ei adlewyrchu'n rhannol yn lefelau uchel yr ailgyfeiriadau a nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Mae angen recriwtio a chadw staff, a datblygu gweithlu sy'n gynyddol brofiadol, os yw beichiau achosion ac ansawdd gwaith cymdeithasol ac ymarfer ataliol i fod o'r safon uchel angenrheidiol.

Mae gallu a meini prawf cymhwysra yn rhwystro plant a theuluoedd rhag cael mynediad at wasanaethau cymorth yn fuan, o ran gwasanaethau ymyrryd penodol o fewn y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICD) a gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl.

Roedd diffyg arferion cydweithio effeithiol gyda gwasanaethau oedolion mewn perygl o arwain at ganlyniadau gwael i blant, lle roedd gan eu rhieni anabledd dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl.

Yr arferion da a'r mentrau newydd a ganfuwyd:

Ystod effeithiol o wasanaethau newydd a datblygol i atal ac ymyrryd yn gynnar i gefnogi teuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys rhieni yn cymryd meddiant o'u cyfrifoldebau ac yn eu deall, o ran gwella a darparu magwraeth ddiogel a digon da i'w plant. Defnyddio system y "pellter a deithiwyd" i nodi newid cadarnhaol a wnaed gan rieni.

Perthynas amlasiantaethol effeithiol ar lefel gwaith maes, sy'n dwyn ymarferwyr at ei gilydd o amrywiaeth o gyrff statudol a gwirfoddol, gyda gwell ffocws ar ofal plant, yn yr hyn sydd, ar adegau, yn sefyllfaoedd anodd, heriol a pheryglus i blant, rhieni a staff fel ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys defnydd mwy cyson o broses yr "Arwyddion Diogelwch" i fod o gymorth i ddadansoddi, cynllunio a phenderfynu ar ran plant mewn angen a'r rheiny sydd mewn perygl o niwed.

Meysydd ar gyfer gwaith dilynol gan AGGCC:

Adolygu cynnydd o ran cyflawni'r Argymhellion fel y'u rhestrwyd uchod.

Gweld beth yw effaith integreiddio prosesau atgyfeirio, yn enwedig o ran gostwng nifer yr ailgyfeiriadau, ac effaith Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd ar niferoedd y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'r plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor.

Effeithiolrwydd ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol:

Gwnaeth Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2009 ddarpariaeth ar gyfer gweithredu model Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD [IFST]), ac yng Ngwanwyn 2010 lansiwyd tri TICD arloesol ar draws Cymru. Un o'r rhain oedd Cyngor Dinas Casnewydd. Mae'r rhaglen i gael ei gweithredu ledled Cymru yn ystod 2013 – 2015 a bydd gwasanaeth Casnewydd, o Wanwyn 2013 ymlaen, yn cwmpasu pedwar Cyngor ychwanegol. Ynghyd â Chyngor Dinas Casnewydd, prif bartneriaid y GICD yng Nghasnewydd yw Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Barnardo's.

Mae'r Cyngor wedi datblygu Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICD), ac elfen graidd hwn yw'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD), sy'n gyrru'r newid a'r gwelliannau yn eu blaen yn y gwasanaethau cymorth yng Nghasnewydd. Mae cael Barnardo's yn cymryd rhan, fel partner o ddewis, yn y GICD wedi cyfrannu arbenigedd a chyllid hefyd i gynorthwyo i ddatblygu'r gwasanaeth ar draws y ddinas.

Mae'r GICD yn sail i Strategaeth Gomisiynu'r Cyngor ar gyfer Plant mewn Angen sy'n ceisio *“datblygu continwmm o wasanaethau integredig cymorth i deuluoedd a gofalwyr ar gyfer plant a phobl ifanc mewn angen, sydd i'w weld yn eu hamddiffyn rhag niwed ac yn hyrwyddo'u lles.”* Rhan o'r bwriad strategol hwn yw sicrhau, cyn belled ag y bo'n ddiogel i wneud hynny, ostyngiad o hyd at 20% yn niferoedd y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant a'r plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor. Roedd holl waith y GICD wedi ei integreiddio gyda dyletswydd ac asesu rheng flaen, amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal a thimau a gwasanaethau troseddwy'r ifanc. Roedd cysylltiadau da hefyd gyda phartneriaid yn y gymuned megis ysgolion, iechyd, yr heddlu ac asiantaethau a gwasanaethau gwirfoddol.

I ddibenion yr arolygiad hwn, ystyriwyd effeithiolrwydd y gwasanaethau canlynol o fewn y GICD:

Y Gwasanaeth Ataliol/gwasanaeth y Tîm o amgylch y Teulu (TAT). Datblygwyd hwn yn ystod 2012 yn dilyn cyfuno'r Tîm Ymyrryd yn Gynnar ac Atal (a reolid gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd) gyda'r Grŵp Gwasanaeth Ataliol (a reolid gan yr Adran Addysg). Mae gan y Gwasanaeth Ataliol ddarpariaeth ar gyfer rheolwr tîm, dau uwch ymarferwr a hyd at 14 o weithwyr cymorth, sy'n cynnwys profiad o weithio yn Cymorth i Ferched, addysg, gwaith troseddwy'r ifanc, gwaith cymdeithasol, meithrinfa a gwasanaethau preswyl a phlant a phobl ifanc anabl. Nod y Gwasanaeth ataliol yw darparu gwasanaeth ymyrryd yn gynnar ac atal ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd ond lle yr ystyrir nad oes angen gwasanaeth gwaith cymdeithasol.

Mae'r Tîm Cymorth i Deuluoedd (TCD) yn darparu amrywiaeth o ymyriadau teuluol, sy'n cynorthwyo rhieni gyda phob agwedd ar fagu a diogelu eu plant. Mae hyn o fewn cyd-destun y cynlluniau amddiffyn plant a phlant mewn angen, a gyflawnir gan y tîm rheng flaen Dyletswydd ac Asesu a'r tîm Amddiffyn Plant. Mae gan y TCD ddarpariaeth ar gyfer 14 o staff, yn cynnwys

rheolwr tîm Barnardo's, uwch weithiwr cymorth i deuluoedd, ac amrywiaeth o ymarferwyr gyda phrofiad mewn iechyd a gofal cymdeithasol, nyrsio plant bach, gwaith pobl ifanc a gwaith cymunedol a chynghori.

Cychwynnwyd y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD) gan wasanaethau plant yn 2010. Mae'r TICD yn gweithio gyda theuluoedd lle mae'r prif berygl i ddiogelwch a lles plentyn yn ganlyniad y ffaith bod y rhieni'n camddefnyddio sylweddau. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar blant mewn angen, y rheiny sydd mewn perygl o niwed ac sydd angen eu hamddiffyn, a phlant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor lle mae adferiad gyda'u rhieni'n rhan o'r cynllun. Mae gan y TICD ddarpariaeth ar gyfer rheolwr gwasanaeth, rheolwr busnes, rheolwr tîm, cefnogaeth weinyddol, gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol, nyrsys seiciatrïg cymunedol ac ymwelydd iechyd, gyda Gwasanaeth Prawf Gwent a Barnardo's yn rhoi un aelod o staff yr un ar secondiad i'r tîm. Partner o bwys, o ran rhoi mewnbwn ac arbenigedd i'r TICD, yw gwasanaeth Kaleidoscope, sy'n arbenigo mewn gweithio gyda phobl â phroblemau cyffuriau ac alcohol. Mae cyfanswm o 8 gweithiwr ymyrryd yn y TICD.

Caiff y Gwasanaeth Asesu a Chynorthwyo Teuluoedd (GACHT) ei redeg gan Barnardo's ac mae'n gweithio gyda theuluoedd ag anghenion cymhleth a lle ceir perygl y bydd teulu'n chwalu'n fuan gyda'r posibilrwydd y caiff y plant eu derbyn i ofal y Cyngor. Mae gan y GACHT ddarpariaeth ar gyfer Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Barnardo's, gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol a 3 gweithiwr ymyrryd o amrywiol broffesiynau.

Caiff Cyd-drefnydd Cam-drin Domestig ei chyllido drwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r GICD, a'i chyflogi gan Barnardo's. Mae hi'n dod ag ystod o arbenigedd amhrisiadwy i'r gwasanaeth ac mae'n cynnal proses adolygu/asesu ddyddiol gyda'r Heddlu ynghylch yr holl atgyfeiriadau cam-drin domestig.

Mae elfennau eraill y GICD yn cynnwys tîm y Plant ag Anghenion Ychwanegol (PAY) fel rhan o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, sy'n darparu cymorth i deuluoedd sydd ag anghenion ychwanegol. Mae'r tîm yn cydweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Ataliol. Mae Gwasanaeth Cyswllt Teulu, B@1 i bobl ifanc â phroblemau camddefnyddio sylweddau, Gofalwyr Ifanc, gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Ifanc, a'r gwasanaeth Cyngor ynghylch Dyled, i gyd yn gweithio i gynorthwyo a chefnogi plant, pobl ifanc a rhieni.

Yn yr achosion hynny lle ceir pryderon sylweddol ynglŷn â'r plentyn, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu gweld fel plant mewn angen neu sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, mae'r mewnbwn yn seiliedig ar ddarparu rhannau allweddol o'r cynllun plant mewn angen, cynllun amddiffyn plant neu gynllun plentyn sy'n derbyn gofal. Mae cynlluniau o'r fath yn seiliedig i raddau ar ddefnyddio model "Arwyddion Diogelwch" y Cyngor, sy'n rhoi fframwaith ar gyfer asesu a rheoli risg. Roedd y rhain yn amlwg

mewn ffeiliau achos ac fe'u defnyddid mewn cynadleddau amddiffyn plant ac adolygiadau.

Wrth weithio gyda theuluoedd, roedd staff yn y GICD a rhieni yn cydnabod y cryfderau oedd gan rieni, yn nodi'r ymddygiadau hynny oedd yn annerbyniol, ac yn cytuno ar yr amrywiaeth o wasanaethau a chymorth oedd ei angen i gynorthwyo'r rhieni i ddarparu cartref mwy diogel ar gyfer eu plant. Ar gyfer tystiolaeth o newid ac ymddygiad oedd yn lleihau risg, defnyddid offeryn gwerthuso'r "pellter a deithiwyd". Galluogai hwn y rhieni i asesu ble roeddent pan oeddent yn dechrau derbyn gwasanaeth, sut roedd magwraeth ddigon da yn edrych iddynt hwy a'u plant, a gwybod os neu bryd yr oeddent wedi cyflawni newid o'r fath.

Ceir llwybr atgyfeirio sengl at y Gwasanaeth Ataliol, ar gyfer plant a theuluoedd a ystyrir yn agored i niwed ond nad oes arnynt angen mewnbwn arbenigol gan wasanaethau plant. Ers mis Ebrill 2012, mae'r gwasanaeth wedi derbyn 434 o atgyfeiriadau, gyda mwyafrif yr atgyfeiriadau'n dod o ysgolion (35%), yr Heddlu (22%) a theuluoedd yn hunangyfeirio. Er bod y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau, sef 63%, ar gyfer plant 9-17 mlwydd oed, mae 36% ar gyfer plant 0-8 mlwydd oed. Mae'r prif atgyfeiriadau, sef 37%, ar gyfer gwasanaeth ataliol bras, 19% ar gyfer rheoli dicter/ymddygiad heriol, a chyfiawnder adferol yn 13%.

Dangosai gwerthusiad y "pellter a deithiwyd" o'r newid yn y rhieni, a ddefnyddiodd y Gwasanaeth Ataliol ar gyfer y cyfnod o Ebrill i Ragfyr 2012, leihad mewn risg o 30% ar gyfartaledd. Roedd hyn yn cynnwys gwelliant yn eu sgiliau rhianta a rheoli dicter, ac yn gyffredinol roedd gostyngiad yn y risg yn 91% o'r teuluoedd a dderbyniodd gymorth gan y Tîm Atal. O'r 160 o deuluoedd oedd yn derbyn gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn, cafodd 23 o deuluoedd (14%) eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer ymyriad pellach. Fel y nodwyd yn Adroddiad Trosolwg y GICD ar gyfer Ebrill i Ragfyr 2012, roedd lefel y risg, yr aseswyd ei bod yn bodoli o fewn teuluoedd ar gyfer y cyfnod hwn, yn uwch nag mewn chwarteri blaenorol. Bydd angen i'r Cyngor adolygu hyn yn gyson er mwyn sicrhau bod meini prawf cymhwystra addas wedi eu sefydlu a throthwyon priodol ar gyfer mynediad at amrywiol wasanaethau'r GICD.

Mae gan y Tîm Cymorth i Deuluoedd (TCD), y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD) a'r Gwasanaeth Asesu a Chynorthwyo Teuluoedd (GACHT) un pwynt atgyfeirio sengl at eu gwasanaethau.

Gyda golwg ar y Tîm Cymorth i Deuluoedd (TCD), o'r 205 atgyfeiriad a wnaed yn y cyfnod o Ebrill i Ragfyr 2012, daeth pum deg chwech y cant o atgyfeiriadau oddi wrth y Timau Dyletswydd ac Asesu, 24% gan y timau Amddiffyn Plant, gydag 8% yn dod oddi wrth dîm Plant ag Anableddau a 5% oddi wrth dîm Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae bron i dri chwarter y gwaith yn ymwneud â phlant a theuluoedd mewn angen, gyda 18% yn cefnogi plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'u teuluoedd. Nod ymyriad

y gwasanaeth oedd sicrhau a chynnal rhianta diogel. Mae ychydig dros 71% o waith y TCD yn ymwneud â phlant o'r amser cyn eu geni i 11 mlwydd oed.

Dangosai gwerthusiad gan yr awdurdod lleol, ar ddiwedd cymorth gwasanaeth gan y TCD i deuluoedd, welliannau sylweddol yn ansawdd rhianta, cadw plant yn ddiogel ynghyd â chynnydd mewn hunan-barch.

Mae gan y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD) rôl flaenllaw mewn ymgymryd â gwaith gyda rhiant sydd â phroblem camddefnyddio sylweddau, a lle mae angen dull amlasiantaethol, medrus i fynd i'r afael ag ystod o broblemau rhieni a theulu. Derbyniodd y TICD 47 atgyfeiriad yn y cyfnod o Ebrill i Ragfyr 2012. O'r rhain, derbyniwyd 27 allan o 30 i dderbyn gwasanaeth, roedd 8 allan o 9 ar gyfer ymgynghoriad yn unig ac roedd 6 allan o 8 yn ailgyfeiriadau a dderbyniodd wasanaeth. Y prif sylweddau a gâi eu camddefnyddio gan rieni yn ystod yr un cyfnod oedd alcohol ar 45%, heroin 32%, gyda chanabis yn dilyn ar 10%, amffetamin 7% a chocên ar 6%. Dylid nodi bod disgwyl i'r TICD, fel un o'r gwasanaethau arloesol oedd yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad ar gyfer staff gyda golwg ar fodolau ymyrryd ac ymarfer ei wasanaeth.

Mae'r Gwasanaeth Asesu a Chynorthwyo Teuluoedd (GACHT) yn canolbwyntio'n bennaf ar ymateb i deuluoedd sydd mewn perygl o chwalu a cheisio atal y posibilrwydd i'r plant ddod i ofal y Cyngor. Ar adegau, bydd y gwasanaeth hwn yn gweithio gydag amrediad o sefyllfaoedd teuluol cymhleth a heriol, tebyg i rai'r TICD, er nad oes iddo'r un pwyslais ar weithio gyda rhieni â phroblemau hirfaith o gamddefnyddio sylweddau. Derbyniodd y GACHT 36 atgyfeiriad yn y cyfnod o Ebrill i Ragfyr 2012. O'r rhain, derbyniwyd 26 allan o 29 atgyfeiriad i dderbyn gwasanaeth, cafodd y 6 achos a gyfeiriwyd am gyngor eu derbyn a derbyniwyd un achos oedd wedi ei ailgyfeirio. Mae'r GACHT wedi sylwi ar y nifer cynyddol o bobl ifanc mewn trafferthion, nad ydynt yn cyrraedd y meini prawf cymhwyster uchel ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl arbenigol Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), ac mae wedi defnyddio un swydd wag i recriwtio gweithiwr CAMHS i'r tîm.

O'r plant a'r teuluoedd a dderbyniodd wasanaeth gan y TICD a'r GACHT, ystyrid mai plant mewn angen oedd chwe deg tri o'r achosion, roedd 24% ar y gofrestr amddiffyn plant neu'n destun achos llys amddiffyn plant ac roedd 13% yn destun gorchmynion gofal gwirfoddol neu Orchmynion Gofal Dros Dro. Roedd amrywiaeth yn oedran y plant oedd yn defnyddio'r ddau wasanaeth, gyda 30% yn rai o'r cyfnod cyn eu geni i 2 flwydd oed, 17% rhwng 3 a 5 mlwydd oed a 29% yn 6 i 11 mlwydd oed. Canfu gwerthusiad yr awdurdod lleol o'r teuluoedd, a dderbyniodd gymorth ac ymyriad gan y TICD a'r GACHT, fod ymddygiad y rhan fwyaf (95%) o deuluoedd, ar ôl cyfnod o chwe mis, yn cael ei ystyried wedi gwella hyd at fod yn "ddigon da", gyda'r rhan fwyaf o blant mewn angen yn aros gartref gyda'u rhieni.

Dangosai arolygon rhieni lwyddiant y GICD, gan gynnwys defnyddio offeryn y “pellter a deithiwyd”. Roeddent yn croesawu gonestrwydd y staff yn egluro'r hyn sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol o ran magu eu plant a/neu ymddygiadau cysylltiedig a allai fygwth neu niweidio eu plentyn. Dangosai tystiolaeth o'r sampl fechan o achosion, yr edrychwyd arni fel rhan o adolygiad Plant mewn Angen a gynhaliwyd gan AGGCC ym mis Tachwedd 2012, fod nifer o rieni'n teimlo y gallent gamarwain rhai gweithwyr cymdeithasol ynghylch yr hyn oedd yn digwydd mewn gwirionedd yn eu bywydau ac ym mywydau eu plant. Dylai defnydd mwy cyson o offeryn y “pellter a deithiwyd”, ynghyd â phroses herio effeithiol gan staff gwaith cymdeithasol a'r rheiny o fewn y timau GICD, fod o gymorth i sefydlu perthynas fwy gonest rhwng rhai teuluoedd a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Mae Adroddiad Trosolwg y GICD am Ebrill – Rhagfyr 2012 yn disgrifio nifer o astudiaethau achos manwl, sy'n dangos amrediad y gwaith a wneir gan y gwasanaeth gyda phlant a'u teuluoedd. Mae hyn yn bwrw golau ar beth o fanylder cymhlethdod y tasgau amrywiol y maent yn eu cyflawni ynghyd â gwerthusiad gonest o'r cynnydd a wnaed gan deuluoedd, a'r effaith a gaiff hyn o ran sicrhau canlyniadau gwell a mwy diogel i'w plant.

Ymddengys i'r arolygwyr fod y trefniadau a sefydlwyd gan y TCT, y TICD a'r GACHT ar gyfer derbyn atgyfeiriadau plant mewn angen, y rhai ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor, lle mae adferiad yn rhan o'r cynllun gwasanaeth, yn gweithio'n weddol effeithiol. Ceir tystiolaeth, fodd bynnag, fod yna oedi weithiau i staff y rheng flaen o ran cael mynediad at rai gwasanaethau o fewn y GICD. Mewn rhai achosion, roedd yr anhawster a achoswyd gan y fath oedi, neu fethiant i gael gwasanaeth o gwbl, wedi tanseilio'r cynlluniau gwasanaeth i blant a theuluoedd. Mae angen i'r Cyngor adolygu'r meini prawf ar gyfer mynediad at wasanaeth ac edrych eto ar allu'r GICD er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon.

Maes sy'n anodd i staff yn y GICD yw sicrhau asesiad amserol a chefnogaeth rheoli achos gan wasanaethau oedolion, i gynorthwyo rhieni sydd ag anableddau dysgu a/neu'r rheiny ag anawsterau iechydd meddwl. Er bod maint yr anhawster yn aneglur i'r arolygwyr, mae'n faes i'r Cyngor ei adolygu a'i wella. At hynny, ac er gwaethaf recriwtio gweithiwr CAHMS i'r GACHT, mae yna angen cyson a sylweddol am fwy o fynediad at ddarpariaeth CAMHS ar gyfer plant a phobl ifanc â phroblemau iechydd meddwl.

Cafodd effeithiolrwydd y TICD, a'i lwyddiant yn sicrhau canlyniadau gwell i blant, lle mae gan un neu ragor o'r rhieni broblem sylweddol o gamddefnyddio sylweddau, ei adolygu a'i werthuso gan Brifysgol Cymru yng Nghasnewydd. Mae hyn yn rhan o werthusiad cyffredinol Llywodraeth Cymru o effeithiolrwydd y tri TICD arloesol, a bydd o gymorth i hysbysu'r rhaglen o ledaenu gwasanaeth TICD Casnewydd ar draws y pedwar Cyngor arall a arferai fod yn rhan o'r hen ardal Gwent. Hwyrach hefyd y bydd yr adolygiad yn dangos unrhyw arbedion gwirioneddol a/neu

ragweladwy fydd yn deillio o waith y TICD yn defnyddio'r model cyfrifo "Arbedion Teuluol". Yng Ngwanwyn 2013 y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad yma, ac felly nid oedd ar gael i AGGCC ar adeg yr arolygiad hwn.

Meysydd cynnydd

Amrediad o wasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal, a gwasanaethau cymorth effeithiol sy'n fodd i sicrhau canlyniadau gwell i blant.

Defnyddio'r offeryn asesu "Arwyddion Diogelwch" i reoli risg a dulliau gwerthuso system y "Pellter a deithiwyd" i asesu effeithiolrwydd gwasanaethau cynorthwyo ac ymyrryd.

Gweithio effeithiol rhwng asiantaethau ar draws GICD.

Dull arloesol o ddatblygu gwasanaeth.

Blaenoriaethau ar gyfer gwella

Byrhau'r rhestr aros am wasanaethau gan y GICD.

Mynediad buan at wasanaethau oedolion a mewnbwn ganddynt.

Peryglon

Hyder y staff o ran cael mynediad at wasanaethau allweddol mewn da bryd yn GICD.

Effaith datblygu GICD ar draws Gwent a'r posibilrwydd y bydd hyn yn cael effaith ar lefel y gwasanaethau yng Nghasnewydd.

Gwneud penderfyniadau

Fe wnaeth yr astudiaeth o sampl fechan, a gynhaliwyd gan AGGCC fel rhan o adolygiad Plant mewn Angen ym mis Tachwedd 2012, beri pryder ynglŷn ag ansawdd y penderfyniadau a wneid, yn enwedig yn ystod cyfnod cynnar cysylltiad teulu â Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Dangosodd yr adolygiad fod ansawdd y wybodaeth a gesglid ynghyd â dadansoddiad y wybodaeth hon yn ystod yr asesiad cychwynnol yn anghyson ac weithiau'n wael. Yn yr un modd, roedd asesiadau craidd, ac eithrio'r rheiny a wnaed fel rhan o adroddiadau cynadleddau amddiffyn plant, yn canolbwyntio'n ormodol ar gyflwyno tystiolaeth heb roi digon o sylw i hanes blaenorol y teulu. Dangosodd archwiliad o benderfyniadau'r drws ffrynt, a gomisiynwyd gan y Cyngor, fod nifer y cysylltiadau'n uchel a bod canran uchel o asesiadau cychwynnol heb arwain at ddarparu gwasanaeth. Roedd cynllun gweithredu ar sail yr archwiliad hwn wrthi'n cael ei weithredu.

Roedd modd i'r arolygiad presennol hwn ystyried sampl ehangach o waith y Cyngor o ran gwneud penderfyniadau yn y timau rheng flaen, gyda golwg benodol ar ailgyfeiriadau ac ailgofrestriadau.

Mae mynediad y cyhoedd at Wasanaethau Plant a Theuluoedd yn awr wedi ei leoli yn y Ganolfan Wybodaeth. Mae'r ganolfan hon yn darparu, nid yn unig siop un stop i wasanaethau'r Awdurdod Lleol, ond hefyd amrediad o wasanaethau asiantaethau cyhoeddus a gwirfoddol eraill, gan gynnwys Uned Amddiffyn y Cyhoedd a'r uned Trais Domestig, Job Centre Plus, Bywyd Iach a Chymorth i Ddiodefwyr. Roedd cyrff eraill megis y Gwasanaethau Tân ac Ambiwlans, a grwpiau gwirfoddol llai, yn defnyddio'r cyfleusterau, gan gynnig gwasanaeth i'r cyhoedd ac ymgynghoriad gyda Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn rheolaidd. Mae ystafelloedd cyfweld ar gael gan gynnwys ystafell ddiogel ond mae'n rhaid archebu'r rhain, Fel arall, dim ond bythau cyfweld sydd ar gael. Mae hi wedi cymryd amser i'r staff addasu i'r trefniadau newydd.

Roedd staff yn y Timau Dyletswydd ac Asesu (TDA) a'r Timau Amddiffyn Plant yn gweithio yn yr un swyddfa gynllun agored, lle roedd disgwyl iddynt ddefnyddio unrhyw ddesg oedd ar gael (desg boeth). Roedd system gyfrifiadurol y swyddfa a'r system ffôn yn hwyluso'r dull yma o weithio ac roedd gan y TDA flwch e-bost unpwrpas ar gyfer atgyfeiriadau gan gynnwys blwch e-bost diogel. Roedd gliniaduron ar gael ar gyfer gweithio o adref.

Atebir galwadau ffôn i ddechrau gan staff y brif ddesg ddyletswydd a chânt eu trosglwyddo i'r TDA. Ar unrhyw un adeg, roedd dau gynorthwydd gwaith cymdeithasol ar ddyletswydd yn y swyddfa, yn cael eu cynorthwyo gan weithiwr cymdeithasol ac uwch ymarferwr (sydd ar hyn o bryd mewn rota un mewn tair wythnos). Yr uwch ymarferwr, mewn ymgynghoriad â rheolwr y tîm pan oedd angen, oedd yn gwneud penderfyniadau ynghylch yr holl gysylltiadau ac atgyfeiriadau, a chât achosion eu dyrannu'n ddyddiol. Roedd system y ddesg ddyletswydd yn dal i ddatblygu ac roedd rheolwr y tîm yn adolygu'r prosesau penderfynu presennol a'r trothwyon cyfredol, gan gynnwys atgyfeiriadau trais domestig.

Cydnabuwyd yr angen am berthynas waith agosach gydag asiantaethau eraill o'r blaen. Cynhelid cyfarfodydd cam-drin domestig wythnosol, oedd yn cynnwys yr holl asiantaethau perthnasol. Ymwelai rheolwr tîm y TDA ag ysgolion, a dywedid bod hynny'n arwain at atgyfeiriadau mwy addas. Roedd peilot wrthi'n cael ei gynnal hefyd ar system o ymateb i atgyfeiriadau addysg a rhoi diweddariad i'r sawl a wnaeth yr atgyfeiriad ynghylch cynnydd. Roedd hyn yn cynnwys rhoi gwybod i ysgolion pan nad oedd Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn bwriadu gweithio gyda'r teulu ond yn gofyn iddynt ddal i fonitro'r sefyllfa.

Roedd y staff yn cydnabod bod anghysondeb wedi bod yn y trothwyon a'r penderfyniadau a wneid yn y ddau dîm dyletswydd ac asesu ond credent fod hyn wedi gwella'n sylweddol ers i'r ddau dîm ddechrau gael eu rheoli gan yr un rheolwr tîm ryw dri mis yn ôl. Defnyddid Arwyddion Diogelwch yn fwy cyson ar adeg yr asesiad cychwynnol ac roedd hyn yn gwella'r dadansoddiad o risg. Fel rhan o'r cynllun i ostwng nifer yr atgyfeiriadau i'r TDA, roedd trefniadau dan ystyriaeth i

gyfeirio'r holl atgyfeiriadau cyntaf at y Gwasanaeth Ataliol, os nad oeddent yn amlwg yn achosion amddiffyn plant. Er mwyn cael rheolaeth fwy effeithiol ar atgyfeiriadau, o fis Ionawr 2013, gosodwyd gweithiwr cymdeithasol o fewn y Gwasanaeth Ataliol i fod yn gyswllt rhwng y TDA a'r Tîm Atal.

Disgrifiai'r staff y dull o wneud penderfyniadau fel:

"Not an autonomous approach but rather a sharing of the weight and responsibilities of making decisions which influence children's lives and/or safety."

"In my experience, decision making has been a joint process that is discussed in supervision."

O ddydd i ddydd, byddai aelodau'r tîm yn cynnig cyngor a chymorth ac roedd uwch ymarferwyr a rheolwr y tîm ar gael hefyd. Darperid goruchwyliaeth ar sail achos yn rheolaidd. Gwelwyd peth goruchwyliaeth dda a phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd, er nad oedd hyn yn gyson eto ar draws yr holl dimau, o ran ansawdd a rheoleidd-dra'r oruchwyliaeth a'i heffaith gyffredinol o ran gwella ansawdd y penderfyniadau a wneid.

Cymerai rheolwyr eraill a'r Swyddogion Adolygu Annibynnol ran mewn adolygiadau amddiffyn plant a phlant oedd yn derbyn gofal (LAC). Roedd uwch reolwyr yn cadeirio nifer o fforymau penderfynu, gan gynnwys paneli lleoliadau a chyfarfodydd cyfreithiol. Er bod y staff yn gwerthfawrogi cael rhannu cyfrifoldebau penderfynu, teimlid bod yna ormod o ddwyblygu, gydag amrywiaeth ormodol o baneli penderfynu, oedd yn teimlo fel rhwystrau i'w goresgyn, yn enwedig gan fod angen adroddiadau gwahanol ar bob cam ar gyfer y gwahanol baneli. Mae angen adolygu'r broses hon a'i symleiddio er mwyn osgoi dyblygu a chyflymu'r broses benderfynu.

Ailgyfeiriadau

Cyfeiriai Adroddiad y Cyfarwyddwr am 2011/2012 at y cynnydd yn nifer yr ailgyfeiriadau. Edrychodd y Cyngor ar y trothwyon yn y timau TDA a daeth i'r casgliad bod y trothwyon yn gadarn a bod y cynnydd yn ganlyniad cynnydd cyffredinol o 86% mewn atgyfeiriadau. Roedd ailgyfeiriadau hefyd yn nodwedd o'r adolygiad Plant mewn Angen ym mis Tachwedd 2012.

Cyn yr arolygiad presennol, cynhaliwyd dadansoddiad bwrdd gwaith, oedd yn dangos bod cyfradd ailgyfeiriadau wedi cynyddu o 25% yn 2010-2011 i 44% yn 2011-2012, gyda'r nifer rhagdybiedig ar gyfer 2012-2013 yn 40%. Hyd at 2009-2010, roedd ffigurau Casnewydd wedi cymharu'n ffafriol gyda chyfartaledd Cymru Gyfan ond 30% oedd y ffigur ar gyfer Cymru yn 2011-2012. Bu peth trafod yn yr awdurdod ynghylch y gofynion i adrodd am atgyfeiriadau, ond nid cysylltiadau, a bod eu harferiad o symud y rhan fwyaf o gysylltiadau ymlaen i fod yn atgyfeiriadau o bosibl yn gwyro ffigurau Casnewydd.

Edrychodd yr arolygiad hwn ar sampl ar hap o ailgyfeiriadau am gyfnod ym Medi - Hydref 2012, a dilynodd ddau o'r achosion drwy siarad â'r gweithwyr cymdeithasol oedd yn ymdrin â hwy. Y pwrpas oedd edrych ar ymateb yr awdurdod i'r atgyfeiriadau a bennwyd a'r atgyfeiriadau cynharach (ac unrhyw rai dilynol) yn nhermau'r penderfyniadau a wnaed a'r camau a gymerwyd. Nid oedd modd edrych ond ar nifer bychan o achosion ond er hynny nodwyd nifer o themâu.

Roedd yr ymateb i atgyfeiriadau'n fuan, gyda phenderfyniad yn cael ei wneud, ym mhob achos bron, o fewn 24 awr waith. Gyda'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau a welwyd, buasai o leiaf ddau atgyfeiriad blaenorol (pump atgyfeiriad blaenorol yn un achos) ac ym mwy na hanner yr achosion, atgyfeiriad dilynol. Wrth ddarllen y ffeiliau gwelwyd darlun cymysg o ymarfer. Gwelwyd rhai enghreifftiau da o benderfyniadau effeithiol a chynllunio cyfreithiol ond yn eraill roedd diffyg mewnbwn o'r fath a/neu frys i wneud cynllun wrth gefn yn gadael plant o bosibl mewn perygl. Nodwyd y themâu canlynol:

Mewn nifer o achosion, gallai'r ymateb i atgyfeiriadau blaenorol fod wedi gadael plant mewn perygl posibl.

Dangosai'r penderfyniadau a wneid mewn ailgyfeiriadau fod digwyddiadau, yn rhy aml, yn cael eu gweld ar eu pen eu hunain yn hytrach na fel pryderon oedd yn pentyrru. Roedd gan rai o'r teuluoedd hanes sylweddol gyda Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ond ychydig o ystyriaeth a roddid i hyn.

Ceid diffyg cysondeb o ran cynnal "gwiriadau ochrol" gydag asiantaethau eraill ac, ar adegau, roedd hyn yn achosi oedi cyn penderfynu.

Ni châi plant eu gweld bob amser pan fyddai'r staff yn cwblhau'r asesiadau cychwynnol.

Roedd defnydd mwy cyson o Arwyddion Diogelwch eisoes yn cael effaith ar yr atgyfeiriadau mwy diweddar.

Lle roedd yn briodol, câi penderfyniadau eu gwneud yn nhermau'r camau oedd eu hangen, ond mewn nifer o achosion roedd yr ymateb yn aml yn anaddas, lle y deuid i'r penderfyniad nad oedd angen camau pellach gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd. Mabwysiadwyd un dull cyffredinol ac anfonid llythyrau yn dweud na fyddai camau pellach yn cael eu cymryd a rhoddid cyngor, gan gynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer gwasanaethau addas. Roedd hyn yn cynnwys anfon llythyrau at bobl agored i niwed, nad oeddent yn debygol o gymryd cam rhagweithiol i gysylltu â gwasanaethau ac asiantaethau cymorth posibl. Anfonwyd llythyrau hefyd at ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig, lle y gallai'r ferch fod yn dal yn yr un tŷ â'i phartner/yr un oedd yn ei cham-drin, gyda'r holl ganlyniadau negyddol posibl i'r ferch a'i phlant. Nid oedd effaith y llythyrau hyn yn cael ei monitro na faint oedd wedyn yn manteisio ar wasanaethau ataliol.

Ailgofrestriadau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

Rhoddodd Adolygiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant Casnewydd (BDPC) 2010 - 2012 adolygiad o waith amddiffyn plant yng Nghasnewydd, gan gynnwys cyfeiriad at

gyfraddau ailgofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant (CAP). Cafwyd ystyriaeth lawnach a dadansoddiad o hyn yn yr adroddiad gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd i gyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu, Gofalu a Hamdden ar yr 28^{ain} o Dachwedd 2012.

Yn ystod 2011/12, cynhaliwyd dros naw deg chwech y cant o gynadleddau achos cychwynnol amddiffyn plant ar amser, gyda 99% o gynadleddau adolygu amddiffyn plant yn cael eu cynnal ar amser. Roedd y cyfarfodydd a gynhelid, i'r grŵp craidd adolygu'r cynlluniau amddiffyn plant o fewn 15 diwrnod i'r gynhadledd gychwynnol, wedi digwydd yn 56% o achosion.

Ers 2007/08, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cofnodi tuedd ostyngol yn nifer y plant mewn perygl fel y dangosir drwy fod ar y CAP: yn ystod 2009/10, er bod y nifer ar y CAP yng Nghasnewydd wedi parhau i ddod i lawr, roedd y cyfartaledd yng Nghymru'n codi. Ar gyfer 2011/12, oddeutu 110 oedd y nifer ar y CAP yng Nghasnewydd, bron i 25% o dan gyfartaledd Cymru. Yn gyffredinol, mae cyfradd yr ailgofrestriadau ar y CAP yng Nghasnewydd yn cyd-fynd yn fras â ffigurau cyfartalog Cymru, er ei fod oddeutu 20% yn uwch na'r cyfartaledd pan gymerir ailgofrestriadau ar gyfer 2011/12 i ystyriaeth.

Edrychodd yr arolygiad hwn ar sampl ar hap o achosion ailgofrestru oedd ar y CAP dros y cyfnod Medi-Hydref 2012, a dilynodd ddau achos drwy siarad â rheolwyr achosion gweithwyr cymdeithasol a'r staff cymorth cysylltiedig, a'r rheolwyr hefyd lle roedd hynny'n briodol. Bwriad hyn oedd adolygu'r penderfyniadau a wnaed a'r camau a gymerwyd, a chael persbectif cliriach ar hanes y plentyn, y canlyniad a'r profiad o ymyriad y gwasanaeth. Nid oedd modd archwilio ond nifer bychan o achosion ailgofrestru ar y CAP ond, er hynny, nodwyd rhai themâu. Buwyd yn ystyried hefyd a oedd unrhyw gysylltiad achosol rhwng y niferoedd ar y CAP, yr ailgofrestriadau, a chychwyn y TICD ac ystod ehangach o wasanaethau cymorth drwy gyfrwng y GICD.

Darlun cymysg o ymarfer, ac o fewnbwn a goruchwyliaeth y rheolwyr a gafwyd wrth ddarllen y ffeiliau. Ceid tystiolaeth o beth ymarfer, penderfyniadau a mewnbwn i gynllunio cyfreithiol da, ond anghyson oedd hyn gyda diffyg brys, ar adegau, i wneud cynlluniau wrth gefn, oedd yn gadael plant mewn perygl posibl. Nodwyd y themâu canlynol:

Defnydd cyson o "Arwyddion Diogelwch" mewn cynadleddau amddiffyn plant er mwyn hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau, er nad oedd bod ar y CAP o angenrheidrwydd yn arwain at ostyngiad yn y risg.

Peth ymarfer gwaith cymdeithasol effeithiol o ansawdd da ac ymgysylltiad da gyda rhieni, gydag ymyriadau cadarn gan staff y GICD yng nghyd-destun y cynllun amddiffyn plant.

Arwyddion bod gostyngiad yn y risg yn cael ei asesu'n rhy obeithiol, ynghyd â newidiadau yn yr amgylchiadau mewn rhai achosion, yn arwain at ddadgofrestru a hynny'n cael ei ddilyn gan ailgofrestru o fewn 12-24 mis.

Goruchwyliaeth a gweithredu anghyson gan reolwyr, ynghyd â diffyg brys mewn cynllunio cyfreithiol a gwneud cynlluniau wrth gefn mewn rhai achosion lle roedd perygl, cysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau dros gyfnod hir ynghyd â thrais domestig, wedi bod yn hysbys iawn i'r adran ac eto roedd cyfleoedd i gymryd camau diogelu effeithiol wedi eu colli. Yn greiddiol i hyn yr oedd ymgysylltu aneffeithiol gyda rhai rhieni, oedd yn cadw'r staff bellter braich, er eu bod yn ymddangos fel pe baent yn cydweithredu gyda'r gwasanaethau.

Yn ddiweddar iawn, adroddiadau Llys o ansawdd da sy'n adlewyrchu llais, anghenion a phrofiad y plant yn glir.

Nid yw effaith uniongyrchol y GICD, o ran lleihau nifer y plant ar y CAP a'r rheiny sy'n derbyn gofal gan y Cyngor, yn glir gan ei bod hi'n rhy fuan yn oes y prosiect i asesu hyn. Fodd bynnag, bu gostyngiad yn niferoedd y ddau fesur ers 2006/7: mae'r duedd hon yn gosod perfformiad Casnewydd fel un sy'n rhedeg yn groes i'r mwyafrif o Gynghorau eraill yng Nghymru. Meysydd i'w hystyried gan y Cyngor ac AGGCC yn y dyfodol yw gweld y cydberthyniad posibl rhwng effeithiolrwydd y GICD, a'r effaith o ran gostwng, mewn ffordd ddiogel, nifer y plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor a'r rheiny sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Astudiaethau achos:

Dangosai nifer o'r achosion a archwiliwyd gan yr arolygwyr fod heriau sylweddol yn wynebu gweithwyr cymdeithasol a staff gwasanaethau eraill ar draws y ddinas yn yr hyn oedd yn sefyllfaoedd teuluol cymhleth iawn, a allai fod yn beryglus. Roedd llawer o blant yn byw mewn teuluoedd lle roedd y rhieni yn profi elfennau o gamddefnyddio sylweddau dros gyfnod maith, megis problemau cyffuriau a/neu alcohol, ynghyd â chamdriniaeth ddomestig a/neu anawsterau iechyd meddwl. Câi anawsterau o'r fath, oedd yn cyd-fynd fel arfer â lefelau cynyddol o dlodi ac amddifadedd, eu disgrifio gan nifer o ymarferwyr a rheolwyr fel y "toxic trio" o ffactorau: roedd y rhain yn peri bod llawer o blant a phobl ifanc yn y ddinas yn agored i niwed a pherygl yn ogystal â'r staff oedd yn gweithio gyda'r teuluoedd.

Bu'r arolygwyr yn archwilio achosion lle roedd rhai wedi eu hailgyfeirio a hefyd sampl o achosion lle roedd plant wedi eu hailgofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant. Dangosai'r astudiaethau achos a gynhaliwyd agweddau allweddol ar reoli achosion, ymarfer a gwneud penderfyniadau. Canfuwyd agweddau ar ymarfer gwaith cymdeithasol da, ond ceid hefyd arwyddion bod cyfleoedd i nodi anghenion ac i ddarparu gwasanaeth wedi eu colli gyda'r posibilrwydd i bobl ifanc fod mewn perygl.

Cyfeiriwyd nifer bychan o achosion yn ôl at yr uwch reolwyr iddynt eu hadolygu ac ystyried y gwersi y gellid eu dysgu ar gyfer ymarfer presennol ac yn y dyfodol.

Meysydd cynnydd

Peth ymarfer gwaith cymdeithasol cadarn ac ymyriadau gan wasanaethau cefnogi, oedd yn canolbwyntio'n dda ar y plentyn ac yn sicrhau gwell canlyniadau i blant mewn cyd-destun cynllunio clir.

Gweithio amlasiantaethol da mewn achosion cymhleth a heriol.

Defnydd cynyddol effeithiol o offeryn Arwyddion Diogelwch i hysbysu'r broses benderfynu.

Rhai asesiadau cychwynnol ac asesiadau craidd cadarn.

Blaenoriaethau ar gyfer gwella

Angen cysondeb o ran y trothwyon ac yn y penderfyniadau a wneir, a symleiddio'r broses atgyfeirio ar draws Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Adolygu lefel uchel yr asesiadau a gynhelir, nad ydynt wedyn yn arwain at unrhyw gamau pellach.

Sicrhau bod y timau Dyletswydd ac Asesu (TDA) yn cynnal gwiriadau gydag asiantaethau eraill ac adolygu ar frys yr arferiad o anfon llythyrau "Dim Camau Pellach" at unigolion agored i niwed.

Cysondeb mewn cynllunio cyfreithiol a threfniadau wrth gefn.

Peryglon

Mae llythyrau "Dim Camau Pellach" anghyson ac anaddas yn gadael plant a rhai rhieni mewn sefyllfaoedd agored i niwed posibl.

Cyfleoedd a gollir i gymryd camau priodol yn gosod plant mewn sefyllfaoedd allai fod yn niweidiol.

Gweithlu a gallu

Ym mis Tachwedd 2012, pan gynhaliwyd adolygiad Plant mewn Angen AGGCC, roedd y gwasanaeth yn profi trosiant staff sylweddol ar bob lefel. Ymddangosai'r staff yn ddigalon ac roedd nifer yn bwriadu gadael yn y dyfodol agos. Roedd lefel y swyddi gweigion ym mis Tachwedd 2012 yn 20%. Buasai trosiant y staff yn 33% yn y 15 mis hyd at Awst 2012, gyda'r gyfran uchaf o'r staff yma ymhlith uwch ymarferwyr. Yn ychwanegol at y nifer hwn, roedd bylchau yn codi am fod rhai staff wedi eu gosod mewn swyddi gwahanol o ganlyniad i faterion disgyblu, ac roedd amryw i ffwrdd ar absenoldeb salwch tymor hir. Mewn gwirionedd, roedd lefelau salwch yn sylweddol yn y flwyddyn hyd at Awst 2012, yn cyfateb i bedwar aelod o staff llawn amser yn absennol allan o gyfanswm y timau rheng flaen.

Roedd rhai timau wedi profi anghysondeb o ran rheolwyr; cawsai un tîm bedwar o reolwyr dros gyfnod o ddwy flynedd a hanner, ac roedd swyddi rheolwyr timau yn wag yn y GICD. Cyfyngedig oedd profiad y staff yn y rhan fwyaf o'r timau. Roedd y beichiau achosion, hyd yn oed i staff oedd newydd ymgymhwyso, yn annerbyniol o uchel, a hynny'n cael ei wneud yn waeth fyth gan lefel y swyddi gweigion a beichiau

achosion gwarchodedig y staff oedd newydd ymgymhwyso. Ym mis Gorffennaf 2012, roedd y beichiau achosion ar gyfartaledd dros 20, yn amrywio rhwng 17 a 28 ar draws y timau rheng flaen. Roedd gan uwch ymarferwyr feichiau achosion llawn, yn lle'r 50% fyddai wedi eu galluogi i fentora a chefnogi staff dibrofiad. Adroddai rhai aelodau o staff mai anaml y caent eu goruchwyllo yn ystod yr adeg yma.

Roedd y staff yn y timau rheng flaen yn symud i swyddfeydd newydd a disgwylid iddynt weithio mewn ffordd fwy hyblyg, gan gynnwys gweithio o adref, ac er bod rhai yn croesawu'r newidiadau, nid felly eraill. Roedd pryder neilltuol ynghylch rheolwyr timau, oedd heb ystafelloedd iddynt hwy eu hunain i sicrhau preifatrwydd ar gyfer goruchwyllo, ac roedd archebu ystafelloedd yn aml yn drafferthus. Roedd parcio hefyd yn broblem wirioneddol, yn enwedig i staff oedd i mewn ac allan o'r swyddfa, ac weithiau'n cludo teuluoedd. Ceid pryder ynglŷn â graddfeydd cyflog hefyd yng Nghasnewydd, o gymharu â rhai awdurdodau cyfagos, a chredid bod hyn yn effeithio ar recriwtio a chadw. Oherwydd newidiadau gwasanaeth yn y Gwasanaeth Ataliol gwelwyd newidiadau mewn diwylliant ac ymarfer, gydag ansicrwydd ymhlith staff yn y GICD o ran cyllid, gyda rhai staff ar secondiad yn gorfod ailymgeisio am eu swyddi.

Erbyn amser yr arolygiad hwn ym mis Chwefror 2013, buasai gwelliant sylweddol mewn nifer o feysydd. Credai'r rheolwyr timau a gwasanaethau, a gyfwelwyd, fod ysbryd y staff wedi gwella'n gyffredinol. Cyfwelwyd amrywiaeth o staff gwaith cymdeithasol a staff cefnogi ac roeddent hwythau wedi ymgynghori â'u timau ac yn cynrychioli eu barn. Adroddai'r timau am well darlun ond, er hynny, un cymysg:

"My morale is OK and I feel happy working in Newport, though generally I feel morale is low within the team."

"Morale is good and the team are very supportive."

"Felt really welcome – never felt alone, always felt supported."

"Most people believe they are doing a good job and are valued."

Er bod yna nifer sylweddol o swyddi gweigion yn parhau i fod yn y timau rheng flaen a'r gwasanaethau cefnogi, roedd y sefyllfa'n gwella.

Yn y Timau Dyletswydd ac Asesu (TDA):

Roedd un o'r rheolwyr yn absennol gyda salwch tymor hir a chât'r ddau dîm eu rheoli gan y rheolwr arall.

Roedd tri o'r uwch ymarferwyr yn eu swyddi, roedd y swydd arall yn wag ac yn cael ei chyflawni gan weithiwr asiantaeth ac roedd un o'r pedwar yn gadael oherwydd dyrchafiad mewnol.

O'r deuddeg swydd gweithiwr cymdeithasol, roedd naw gweithiwr yn eu swyddi, roedd dwy swydd yn wag ac yn cael eu cyflawni gan weithiwr asiantaeth ac roedd un gweithiwr yn absennol gyda salwch tymor hir.

Yn y ddau dîm Amddiffyn Plant:

Roedd dwy allan o bedair swydd yr uwch ymarferwyr yn wag, a dim ond un oedd yn cael ei chyflawni gan weithiwr asiantaeth.

O'r ddwy ar bymtheg o swyddi gwaith cymdeithasol, roedd un ar ddeg wedi eu llenwi, roedd pedair yn wag a dwy yn cael eu cyflawni gan weithwyr asiantaeth. Roedd dau weithiwr pellach i ffwrdd ar absenoldeb salwch tymor hir. Roedd dau weithiwr cymdeithasol ar fin gadael, er bod un yn trosglwyddo i un o'r timau TDA.

Yn y GICD:

Roedd swydd rheolwr tîm yn wag yn y TICD ac yn y TCT, gyda rhai dros dro yn gwneud y gwaith.

Salwch yn y TICD gyda throsiant yn y staff a phwysau i gyflwyno'r rhaglen hyfforddi, ynghyd ag ansicrwydd i'r staff ynglŷn â'r effaith ar y tîm wrth i'r gwasanaeth newid i gwmpasu Gwent.

Swyddi gweigion yn y timau Atal a GACHT.

Yn nhermau profiad:

Yn y Timau Dyletswydd ac Asesu, o'r naw gweithiwr cymdeithasol sydd mewn swyddi ar hyn o bryd, roedd pump newydd ymgymhwyso ac roedd pedwar yn eu hail flwyddyn o ymarfer.

Yn y timau amddiffyn plant, o'r un ar ddeg o weithwyr cymdeithasol oedd mewn swyddi, roedd chwech newydd ymgymhwyso, roedd dau yn eu hail flwyddyn ac roedd gan dri ohonynt fwy na dwy flynedd o brofiad.

Yn y GICD, roedd graddau helaeth o brofiad a sgiliau gan y staff mewnol, y rhai o Barnardo's a'r asiantaethau eraill sy'n bartneriaid.

Nid yw hyn yn cynnwys y staff asiantaeth oedd yn cyflawni rhai o'r swyddi gweigion.

O ganlyniad i ymgyrch ddiweddar i recriwtio staff penodwyd 11 o staff newydd, gydag oddeutu un rhan o dair ohonynt yn meddu ar beth profiad. Er bod pryderon yn parhau ynghylch y sefyllfa staffio, yn enwedig y nifer sylweddol o staff oedd newydd ymgymhwyso, roedd mwy o hyder fod y sefyllfa'n gwella. Credid bod llwyddiant yr ymgyrch recriwtio i'w briodoli i Atodiad y Farchnad, yr oedd Casnewydd wedi cytuno arno ar ddiwedd mis Tachwedd 2012, oedd yn gwneud y telerau a'r amodau yn debycach i rai awdurdodau cyfagos. Caiff rhai agweddau ar GICD eu cyllido drwy grant, gyda rhai staff ar secondiad yn gorfod cynnig am swyddi, ac roeddent yn bryderus hefyd y gallai'r grant ddod i ben. Cymerwyd camau cadarnhaol hefyd i fynd i'r afael â materion gallu. Mae angen gwaith pellach i sicrhau dull priodol a chymesur o reoli salwch, gan y teimlai rhai aelodau o staff fod y trefniadau presennol wedi peri i staff ddod i'r gwaith, er eu bod yn amlwg yn sâl, am eu bod yn teimlo na allent gymryd amser i ffwrdd oherwydd salwch.

Roedd beichiau achosion yn parhau'n uchel. Yn y Timau Dyletswydd ac Asesu (TDA), 20 oedd y baich achosion ar gyfartaledd, gydag uchafswm ar hyn o bryd o 35 ac isafswm o 12. Tebyg oedd y sefyllfa yn y timau amddiffyn plant gyda baich achosion cyfartalog yn 20, er bod mwy o dystiolaeth yn y timau hyn fod beichiau achosion staff oedd newydd ymgymhwyso yn cael eu gwarchod.

Dywedodd un aelod o staff:

"Caseloads seem high and this comes from agency staff leaving and being replaced by newly qualified staff on protected caseloads; while newly qualified staff need this support it means a disproportionate number of complex and challenging cases coming to people with only slightly more experience."

Dywedodd un arall:

"I have been in the team for a month and have 9 cases at the moment. I feel this is very manageable and I have been eased into case management very well."

Mae'r beichiau achosion mewn timau gyda'r GICD yn uchel ar brydiau er bod y staff yn teimlo bod modd ymdopi â'r rhain. Fodd bynnag, mae peth pryder o fewn y TDA a'r timau amddiffyn plant ynghylch yr oedi cyn cael mynediad at wasanaethau, ac, yn anaml, methu â derbyn gwasanaeth o gwbl er bod y meini prawf cymhwystra wedi eu bodloni.

Roedd beichiau achosion uwch ymarferwyr yn y TDA rhwng 12 ac 17, ond yn y timau amddiffyn plant roeddent i gyd dros 20 achos. Roedd beichiau achosion mor fawr yn peryglu swyddogaeth yr uwch ymarferwyr yn goruchwyllo a datblygu'r staff ac yn peri i'r gwaith hwn ymddangos yn llai pwysig.

Cytunai rheolwyr timau, gweithwyr cymdeithasol a staff cefnogi fod achosion, gan mwyaf, yn cael eu dyrannu'n ofalus, gan gymryd cymhlethdod yr achos, gallu, profiad a diddordeb i ystyriaeth.

Dywedai'r staff:

"Newly qualified staff are consulted before allocation, with capacity and interest being taken into account but this was not always the case with more qualified staff."

Adroddai'r staff i gyd eu bod yn cael goruchwyliaeth. Roedd y pedwar tîm rheng flaen a staff y GICD yn cael goruchwyliaeth ffurfiol, reolaidd bob pedair wythnos, gyda rheolwr eu tîm yn bennaf, er bod uwch ymarferwyr hefyd yn rhannu peth o hwn. At hynny, ceid ystod o gyfleoedd i dderbyn cymorth gan gynnwys:

Yn y TDA, y timau amddiffyn plant a'r GICD roedd y staff yn cael trafodaethau achos bob pedair wythnos gyda rheolwr eu tîm, uwch ymarferwr neu weithiwr cymdeithasol ymgynghorol.

Roedd uwch ymarferwyr a gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol yn rhoi cymorth a hyfforddiant, yn enwedig i staff oedd newydd ymgymhwyso.

Mentor i staff oedd newydd ymgymhwyso, oedd yn darparu sesiynau unigol, cymorth mewn grŵp a chyfleoedd hyfforddiant.

Mae gan staff TICD/GACHT system gyfeillion ar gyfer adfyfrio ar achosion a materion iechyd a diogelwch, gyda chyfarfodydd "pod" wythnosol i drafod achosion a rhannu ymarfer gyda'u cyfoedion.

Bydd y rhai sydd ar secondiad, o'r gwasanaeth iechyd a'r gwasanaeth prawf a staff Kaleidoscope, yn cael goruchwyliaeth reolaidd gyda'u hasiantaethau hwy eu hunain yn ogystal â gyda rheolwyr yn y GICD.

Roedd ystod o sylwadau gan y staff fel a ganlyn:

"I am currently receiving supervision once a month from my team manager and weekly meetings with a senior practitioner to discuss my cases."

"Supervision has improved with the appointment of a new manager and it is now monthly, before it was not always so regular."

"Supervision is scheduled, prioritised and happens."

"There needs to be commitment to improving everyone's supervision experience in terms of supportive and reflective practice."

Siaradai'r staff hefyd am gyfarfodydd tîm rheolaidd ac am y cymorth mwy anffurfiol y byddant yn ei dderbyn gan gydweithwyr a gan uwch reolwyr.

Dywedai'r gweithwyr cymdeithasol a'r staff cefnogi:

"Colleagues are very supportive, senior practitioners and team managers are very approachable at any time for support and advice."

"I have found senior managers to be unusually approachable and keen to understand and help when they are needed. There is good leadership from managers and senior staff."

Roedd yna gyfarfod rheolaidd ar gyfer rhai uwch ymarferwyr; roeddent hwy'n gweld hwn yn gyfarfod cadarnhaol ac adeiladol iawn, er y byddai cynnwys yr holl uwch ymarferwyr a gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol ar yr un lefel, yn fuddiol i gynorthwyo'r staff ac i sicrhau ansawdd y gwasanaeth.

Roedd amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant ar gael i staff a rhoddid gwybod iddynt drwy e-bost a/neu yn ystod cyfarfodydd tîm. Teimlai'r staff ei bod yn her dod o hyd i amser i fynychu hyfforddiant oherwydd y beichiau gwaith. Yn aml ni chaent ond rhybudd byr eu bod wedi eu derbyn i gael hyfforddiant, yr oeddent, efallai, wedi ei archebu fisoedd ymlaen llaw, ac roedd hyn yn ychwanegu at anawsterau mynychu'r hyfforddiant. Cynhaliai timau ddiwrnodiau hyfforddiant rheolaidd; câi cynlluniau datblygiad personol eu cwblhau a'u bwydo i mewn i'r archwiliad o anghenion hyfforddiant er bod angen defnyddio hwn yn fwy cyson i hysbysu datblygiad y rhaglen hyfforddi staff. Byddai staff mwy profiadol yn elwa o amrywiaeth ehangach o

gyfleoedd hyfforddiant ar lefel wahanol, ynghyd â gwell hyfforddiant i staff sy'n cynnal goruchwyliaeth. Roedd y mentor yn darparu cyfleoedd hyfforddiant i staff oedd newydd ymgymhwyso, ac roedd y rhain ar gael hefyd i staff yn eu hail flwyddyn.

O ran cyfleoedd datblygiad ehangach, dywedai'r staff, er bod rhannu'r gwaith ar draws timau yn rhoi'r cyfle iddynt ganolbwyntio ar eu maes cyfrifoldeb, ei fod yn cyfyngu ar ddatblygiad eu sgiliau a'u profiad mewn meysydd eraill a'i fod yn ei gwneud yn orfodol symud rhwng timau (neu newid awdurdod) pan fyddai swyddi gwag ar gael. Roedd cyfleoedd i weithio mewn rhannau eraill o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ac mewn asiantaethau eraill sy'n bartneriaid, gan gynnwys cyfleoedd secondiad am gyfnod penodol, yn faes yr hoffai staff ei weld yn cael ei ddatblygu rhwng Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac asiantaethau sy'n bartneriaid.

Câi'r newidiadau yn yr arferion gwaith eu croesawu'n gyffredinol ac mae'r staff, gan mwyaf, wedi addasu i weithio hyblyg a'r Cydbwysedd Gwaith a Bywyd. Roedd rhai timau'n cymryd camau cadarnhaol i ddelio â chydweithwyr oedd yn hawlio desg arbennig. Nid oedd pawb wedi setlo yn y Ganolfan Wybodaeth ac roedd parcio'n parhau yn broblem wirioneddol. Roedd aildrefnu'r staff cefnogi wedi ychwanegu at faich gwaith canfyddadwy staff y rheng flaen ac roedd pryderon gwirioneddol ynghylch cwrdd ac effeithlonrwydd yr ICS.

Roedd sylwadau gan y staff yn cynnwys:

"There is good equipment for agile working and working from home."

"The office base at the Information Centre is cold and undermines team coherence."

Roedd rhai newidiadau yn y timau rheng flaen dan ystyriaeth, gan gynnwys rhannu'r ddau dîm TDA a'r ddau Dîm Amddiffyn Plant yn dri'r un. Ar hyn o bryd, mae'r ddau TDA yn cael eu rheoli gan un rheolwr a dywedai'r staff fod hyn i'w weld yn gweithio'n well o lawer, gyda mwy o gysondeb yn y penderfyniadau a wneid. Mae newidiadau yn y trefniadau ar gyfer y TICD yn dal yn ansicr i'r staff, ac mae rheolaeth newydd, fydd yn cael ei rhannu rhwng GACHT a TCT, yn dod i rym ym mis Ebrill 2013, gyda rheolwr tîm newydd yn dod i mewn i'w swydd. Roedd cryfhau swyddogaeth yr uwch ymarferwyr hefyd yn cael ei ystyried.

Meysydd cynnydd

Roedd ysbryd y staff wedi gwella, roedd arferion gweithio newydd yn cael eu derbyn ac yn cael effaith ar ymarfer. Roedd y rheolwyr a'r staff uwch yn hawdd siarad â hwy ac yn rhoi arweiniad da.

Roedd y gweithlu'n dod yn fwy sefydlog a llwyddodd ymgyrch recriwtio ddiweddar i recriwtio rhai aelodau mwy profiadol o staff.

Câi goruchwyliaeth ei chynnal yn rheolaidd ac roedd amrywiaeth o gymorth i'w gael. Roedd yna amrediad o gyfleoedd hyfforddiant.

Derbyniai staff, oedd newydd ymgymhwyso, gefnogaeth a hyfforddiant ychwanegol, caent fentor a châl eu beichiau achosion eu gwarchod i raddau.

Sicrhawyd Atodiad y Farchnad drwy adroddiadau i'r Cyngor a chafodd ei gefnogi gan gyfarwyddiaethau corfforaethol eraill ac Aelodau Etholedig, gan ddangos bod y Cyngor i gyd yn cymryd meddiant o'r cyfrifoldeb i ddiogelu plant a phobl ifanc yng Nghasnewydd.

Blaenoriaethau ar gyfer gwella

Parhau i gadw staff a sicrhau eu datblygiad parhaus drwy gyfrwng goruchwyliaeth a chefnogaeth dda, cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad addas i staff mwy profiadol gan gynnwys uwch ymarferwyr.

Recriwtio mwy o staff profiadol.

Adolygu gallu er mwyn lleihau beichiau achosion i'r TDA a'r timau amddiffyn plant.

Peryglon

Efallai na chaiff y gwelliant presennol mewn recriwtio a chadw staff ei gynnal.

Os bydd y màs critigol o brofiad o fewn y tîm yn parhau'n isel, bydd hyn yn gwanhau'r sefydliad ymhellach ac yn cynyddu'r risg o adael plant a phobl agored i niwed mewn perygl.

Bydd beichiau achosion mawr, parhaus i staff ac uwch ymarferwyr yn lleihau'r gwasanaeth o safon a gaiff ei ddarparu a bydd yn effeithio ar recriwtio a chadw staff.